**PRIFFYRDD, CYMRU**

**2015 RHIF 2**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

# GORCHYMYN CAU PRIFFORDD (TIR O FLAEN COWBRIDGE ROAD, TONYSGUBORIAU, PONT-Y-CLUN) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Ionawr 2015* |
| *Yn dod i rym* | *21 Ionawr 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990[1].

## Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffordd (Tir o flaen Cowbridge Road, Tonysguboriau, Pont-y-clun) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffordd (Tir o flaen Cowbridge Road, Tonysguboriau, Pont-y-clun) 2015" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

## Cau Priffordd

**2.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4 a 5, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn galluogi'r datblygiad i gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 9 Hydref 2013

o dan y cyfeirnod 13/0535/10 ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

**Y Darpariaethau sy’n Angenrheidiol neu’n Hwylus cyn Cau’r Brifford**d

**3.** Ni chaniateir cau’r rhan o briffordd yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy’n dangos sut y bwriedir cau’r rhan o’r briffordd;

(b) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu’r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau’r briffordd i alluogi’r datblygiad i fynd rhagddo; ac

(c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a) a (b) wedi eu bodloni.

**Ymgymerwyr Statudol a Darparwyr**

**4.** Pan fo gan ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau’r rhan o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerwyr neu’r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â’r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau’r briffordd.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod para’r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Ionawr 2015

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1990 p. 8. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau’r Ysgrifennydd Gwladol, i’r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.

## YR ATODLENNI

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

## ATODLEN 1

**<u>Disgrifiad o’r rhan o briffordd sydd i’w chau o dan y Gorchymyn hwn</u>**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy’n gyfanswm o 34.4 metr sgwâr i’r dwyrain o Cowbridge Road, Tonysguboriau, Pont-y-clun, ac sy’n gyfagos iddi.

## ATODLEN 2

**<u>Y Datblygiad</u>**

Dymchwel adeiladau swyddfa a gweithdy presennol, ac adeiladu datblygiad ‘ExtraCare’ 40 uned gan gynnwys swyddfeydd ategol, caffi a chyfleusterau cymunedol yn Cowbridge Road, Tonysguboriau, Pont-y-clun.

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFORDD (TIR O FLAEN COWBRIDGE ROAD, TONYSGUBORIAU, PONT-Y-CLUN) 2015**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i gael ei wneud. Bydd Gorchymyn Cau Priffordd (Tir o flaen Cowbridge Road, Tonysguboriau, Pont-y-clun) 2015 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yng Nghanolfan ibobun, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd CF37 1DU neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1169688/1.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 21 Ionawr 2015 wneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Anstatudol/Trafnidiaeth Cymru/ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchmynion Cau/ 2015).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Disgrifiad o’r rhan o briffordd sydd i’w chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben sy’n gyfanswm o 34.4 metr sgwâr i’r dwyrain o Cowbridge Road, Tonysguboriau, Pont-y-clun, ac sy’n gyfagos iddi.

## ATODLEN 2

**Y Datblygiad**

Dymchwel adeiladau swyddfa a gweithdy presennol, ac adeiladu datblygiad ‘ExtraCare’ 40 uned gan gynnwys swyddfeydd ategol, caffi a chyfleusterau cymunedol yn Cowbridge Road, Tonysguboriau, Pont-y-clun yn unol â’r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o’r Ddeddf gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 9 Hydref 2013 o dan gyfeirnod 13/0535/10.